Addasiadau i Gymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru o 1 Medi 2021

Sgiliau Cymhwyso Rhif Hanfodol a Sgiliau Cyfathrebu Hanfodol (Lefelau 1-3)

Rhwng 1 Medi 2021 a 31 Hydref 2021

- Gellir dyfarnu'r cymhwyster i ddysgwyr sy'n cwblhau'r prawf cadarnhau yn llwyddiannus. **Nid** yw'n ofynnol i ddysgwyr gwblhau'r dasg dan reolaeth.
- Gall cyrff dyfarnu ddarparu asesu o bell neu offer goruchwylio o bell er mwyn alluogi canolfannau i gynnal asesiadau profion cadarnhau o bell.

Rhwng 1 Tachwedd 2021 a 31 Awst 2022

- Rhaid i ddysgwyr gwblhau'r prawf cadarnhau yn llwyddiannus **a'r** dasg dan reolaeth er mwyn ennill y cymhwyster.
- Gellir gwneud y dasg dan reolaeth heb oruchwyliaeth ffurfiol. Gellir defnyddio recordiad neu gofnod ysgrifenedig gan asesydd fel tystiolaeth o'r gweithgareddau siarad a gwrando.
- Bydd cyrff dyfarnu'n sicrhau bod dwy i dair tasg ar gael ar gyfer pob cymhwyster yn ystod y cyfnod hwn.

Sgiliau Llythrennedd Digidol Hanfodol (Lefelau 1-3)

Rhwng 1 Medi 2021 a 31 Awst 2022

- Gall dysgwyr wneud y dasg dan reolaeth heb oruchwyliaeth ffurfiol.
- Gellir cyflawni elfennau trafod strwythuredig y tasgau o bell. Gellir defnyddio recordiad neu gofnod ysgrifenedig gan asesydd fel tystiolaeth o'r drafodaeth strwythuredig.
- Bydd cyrff dyfarnu'n sicrhau bod dwy i dair tasg ar gael ar gyfer pob cymhwyster yn ystod y cyfnod hwn.

Sgiliau Cyflogadwyedd Hanfodol (Lefelau 1-3)

Rhwng 1 Medi 2021 a 31 Awst 2022

- Gall dysgwyr wneud y dasg dan reolaeth heb oruchwyliaeth ffurfiol.
- Gellir cyflawni elfennau trafod strwythuredig y tasgau o bell. Gellir defnyddio recordiad neu gofnod ysgrifenedig gan asesydd fel tystiolaeth o'r drafodaeth strwythuredig.
- Bydd cyrff dyfarnu'n sicrhau bod dwy i dair tasg ar gael ar gyfer pob cymhwyster yn ystod y cyfnod hwn.

Cymwysterau Sgiliau Hanfodol Lefel Mynediad

Rhwng 1 Medi 2021 a 31 Awst 2022

- Gall dysgwyr wneud y dasg dan reolaeth heb oruchwyliaeth ffurfiol.
- Gellir cyflawni elfennau trafod strwythuredig y tasgau o bell. Gellir defnyddio recordiad neu gofnod ysgrifenedig gan asesydd fel tystiolaeth o'r gweithgareddau trafod strwythuredig a siarad a gwrando.